

Datblygiad Boccia Ledled Cymru

Crynodeb

Mae cefnogaeth y Loteri Genedlaethol wedi bod yn allweddol i alluogi datblygiad Boccia yng Nghymru. Mae'r cymorth wedi caniatáu datblygu adnoddau hanfodol, datblygiad hyfforddwyr, cyfleoedd cystadlu ac offer. Mae hyn i gyd wedi golygu bu twf sylweddol yn ansawdd a nifer o cyfleoedd Boccia i bobl ifanc ac oedolion anabl ledled Cymru.

Y Darlun

Mae Boccia Cymru wedi datblygu'n rhyfeddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mi wnaeth y Pencampwriaethau Boccia Cenedlaethol chwarae rhan ganolog yn ei dwf. Cynhaliwyd cystadlaethau mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys Casnewydd a Hwlfordd lle roedd y pencampwriaethau wedi rhoi llwyfan i athletwyr dawnus arddangos eu sgiliau.

Mi wnaeth Pencampwriaethau Cymru 2024 cynnwys ychwanegiad cyffrous i'r rhaglen gyda thimau arddangos a digwyddiad parau ar draw ail ddiwrnod, gan wella ymhellach yr awyrgylch cystadleuol a darparu cyfleoedd i athletwyr gydweithio a datblygu eu sgiliau.

Mae ansawdd y gystadleuaeth wedi gwella'n sylweddol, gan arwain at fwy o gydnabyddiaeth

ar gyfer ein chwaraewyr Cymreig a gemau medalau brwd ar draws grwpiau BC1-4

Yn 2024, mi wnaeth wyth o athletwyr o Gymru, gan gynnwys sêr y dyfodol fel Luke Walsh, Rhys Sansom, Ioan Williams, a Lewis Crawford, cymhwyso ar gyfer Pencampwriaethau Boccia y DU. Ochr yn ochr â'r chwaraewyr newydd hyn, mae chwaraewyr profiadol fel Rachel Bailey, Tomas Martin, Mark Roderick, a Sian Jones yn parhau i ysbrydoli ac arwain y ffordd.

Mae cefnogaeth y Loteri Genedlaethol wedi bod yn allweddol i alluogi datblygiad Boccia yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn wedi caniatáu darpariaeth adnoddau hanfodol, hyfforddi, datblygu hyfforddwyr, cystadlaethau ac offer.

Enghraifft da

“Fy enw i yw Tomas Martin, ac rydw i wedi bod yn ymroddedig i gamp Boccia ers dau degawd. Yn ddiweddar, cefais yr anrhydedd anhygoel o gynrychioli Boccia UK yn Boccia Challenger y Byd yn Olbia, Sardinia. Roedd cystadleuaeth ryngwladol yn foment fythgofiadwy ac i ddod â medal efydd adref yn fy ymddangosiad cyntaf yn foment anhygoel”.



“Mae gadael y gystadleuaeth ar ôl cystadlu ymhlith athletwyr BC2 gorau'r byd yn gam mawr tuag at gyflawni fy nodau. Mae'n gyflawniad gostyngedig yr wyf yn hynod falch ohono. Ni fyddai'r daith hon wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth amhrisiadwy'r Loteri Genedlaethol, Chwaraeon Anabledd Cymru a Boccia UK, mae'r cyllid wedi bod yn allweddol i ddatblygu athletwyr fel fi”.



Cyswllt

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Tom Martin, Cydlynnydd Boccia:

tomas.martin@disabilitysportwales.com